# CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd
## 2018 - 2033

Drafft

## Polisïau a Ddilëwyd

## Strategaeth a Ffefrir 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost [ldp@ceredigion.gov.uk](mailto:ldp@ceredigion.gov.uk) neu dros y ffôn 01545 572123**

Drafft

## Cynnwys


**Sut mae'r polisïau wedi newid?** ii

**Polisïau a ddilëwyd o bolisïau drafft Defnydd Tir a Rheoli Datblygu o CDLl 1** **1**

Polisi DM05 1

**Polisi DM05:** 1

**Datblygu Cynaliadwy a Budd Cynllunio** 1

Polisi DM07 2

**Polisi DM07:** 2

**Ardaloedd Cadwraeth** 2

Polisi DM09 2

**Polisi DM09:** 2

**Cynllunio a Symud** 2

Polisi DM11 3

**Polisi DM11:** 3

**Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd** 3

Polisi DM13 4

**Polisi DM13:** 4

**Systemau Draenio Cynaliadwy** 4

Polisi DM19 5

**Polisi DM19:** 5

**Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol** 5


Drafft

## Sut mae'r polisïau wedi newid?

Mae'r holl bolisïau Defnydd Tir a Rheoli Datblygu wedi eu codio yn ôl lliw. Pan fydd mân newidiadau teipograffyddol yn unig wedi eu gwneud, maent wedi eu codio â'r lliw **GWYRDD**, a phan fydd mân newidiadau wedi eu gwneud a all effeithio ar y defnydd o'r polisi, maent wedi eu codio â'r lliw **AMBR**. Pan fydd newidiadau mawr wedi eu cynnig, mae'r polisi wedi ei godio â'r lliw **COCH**. Cafodd rhai polisïau eu dileu a gwneir hyn yn glir yn y testun. Gwnaed newidiadau cyd-destunol i'r cyfiawnhad rhesymegol drwy'r ddogfen hon.

**Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y polisïau sydd wedi'u dileu o ddrafft CDLl2 gyda throsolwg byr ynglŷn â pham y gwnaed y penderfyniad hwn. Gall y rhain newid yn dilyn Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir – gallai mwy gael eu dileu neu gallai'r rhai a ddilëwyd gael eu hadfer.**

Drafft

# Polisïau a ddilëwyd o bolisïau drafft Defnydd Tir a Rheoli Datblygu o CDLl 1

## Polisi DM05

**Polisi DM05:**

**Datblygu Cynaliadwy a Budd Cynllunio**

I sicrhau bod datblygu yn gynaliadwy, ceisir rhwymedigaethau cynllunio yn sicrhau darpariaeth ariannol neu ddarpariaeth ar safle, lle bo hynny'n briodol, o ran:

1. Seilwaith Teithio Cynaliadwy sy'n gymesur â'r anghenion sy'n codi yn sgil y datblygiad;
2. Cynnal a chadw Systemau Draenio Cynaliadwy yn unol â Pholisi DM13;
3. Cyfleusterau cymunedol, addysg, iechyd, hamdden a mannau agored;
4. Amddiffyn, gwella a rheoli buddion yr amgylchedd;
5. Ynni;
6. Cyfleusterau a gwasanaethau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol; a
7. Tai fforddiadwy yn unol â Pholisi S05.

Drafft

| |
|---|
| Pan ellir profi nad yw cynnig yn gallu cyflawni o ran gofynion polisi y Cynllun, rhoddir blaenoriaeth i sicrhau y darperir cludiant angenrheidiol a seilwaith cyfleustodau e.e. dŵr, carthffosiaeth, mynediad sydd ei angen er mwyn gweithredu'r datblygiad. Ar ôl sicrhau hyn, y flaenoriaeth fydd cyflawni tai fforddiadwy mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol. |

Dilëwyd y polisi hwn o'r cynllun gan ei fod wedi ei gynnwys yn ddigonol yn y polisi cenedlaethol, ac yn rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

**Polisi DM07**

| |
|---|
| **Polisi DM07:**<br>**Ardaloedd Cadwraeth**<br><br>Mae'n rhaid i ddatblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth, fel a ddynodir ar Fap y Cynnig, ac unrhyw Ardaloedd Cadwraeth dynodedig yn y dyfodol ddangos y rhoddwyd sylw i Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth, lle'r oeddent ar gael, ac i ganllawiau cenedlaethol. |

Dilëwyd y polisi hwn o'r cynllun gan ei fod wedi ei gynnwys yn ddigonol yn y polisi cenedlaethol.

**Polisi DM09**

| |
|---|
| **Polisi DM09:**<br>**Cynllunio a Symud**<br><br>Wrth gynllunio datblygiad dylid sicrhau amgylchedd croesawgar sy'n annog symud priodol drwyddo. Dylai: |

Drafft

1. Fod yn ddarllenadwy, a rhoi naws am le;
2. Adlewyrchu swyddogaeth y safle o ran ei leoliad cyffredinol ac o fewn y safle ei hun; ac
3. Annog ffryntiau gweithredol ar lefel y ddaear lle ceir datblygiad amhreswyl.

Dilëwyd y polisi hwn o'r cynllun oherwydd bod y materion hyn wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y Polisi Cynllunio Cymru 10 diwygiedig a Nodyn Cyngor Technegol 12.

**Polisi DM11**

**Polisi DM11:**

**Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd**

Bydd y CDLl yn helpu i sicrhau y bydd y datblygiad yn mynd i'r afael â goblygiadau newid yn yr hinsawdd drwy ei gwneud yn ofynnol bod:

1. y datblygiad a gyfiawnhawyd yn y parth llifogydd yn gydnerth ac yn gallu addasu i effeithiau llifogydd; ac
2. ystyriwyd cynaliadwyedd hirdymor y datblygiad.

Dilëwyd y polisi hwn o'r cynllun ac ychwanegwyd y pwyntiau amlycaf at bolisi DM06.



Drafft

## Polisi DM13

| **Polisi DM13:** |
|---|
| **Systemau Draenio Cynaliadwy** |
| Yn ychwanegol at ofynion a nodwyd yn y canllawiau cenedlaethol, caniateir datblygiad ar yr amodau canlynol: |
| 1. Lle mae safle yn cael ei ddatblygu fesul plot, y cyflwynir cynllun ar gyfer SDCau priodol ar gyfer y safle cyfan yn rhan o'r cais cyntaf; |
| 2. Os bydd modd ehangu'r safle rywbryd yn y dyfodol ni ddylid ei ddatblygu mewn modd sy'n rhwystro gweithredu systemau SDCau yn y dyfodol; |
| 3. Bydd datblygiad amhreswyl o $500m^2$ neu fwy yn cynnwys SDC y bydd y Corff Cymeradwyo SDCau yn gallu ei mabwysiadu; a |
| 4. Bydd cynllun rheoli yn cael ei gyflwyno sy'n rhoi manylion cynnal a chadw'r cynllun SDCau. |
| Os na ellir gweithredu SDC dylid cyflwyno cyfiawnhad ysgrifenedig llawn yn egluro'r sefyllfa. |

Dilëwyd y polisi hwn o'r cynllun gan ei fod wedi ei gynnwys yn ddigonol yn y polisi cenedlaethol ers cyflwyno CCS a chanllawiau cysylltiedig.

Draft

## Polisi DM19

**Polisi DM19:**

**Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol**

Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar dirweddau neu adeiladau sy'n bwysig yn hanesyddol neu'n ddiwylliannol ac yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a budd yr ardal leol ar yr amod na fydd effaith niweidiol sylweddol ar eu golwg unigryw, uniondeb pensaernïol neu eu lleoliad. Lle mae'n bosibl, dylid gwella'r rhinweddau hyn a'r cymeriad arbennig.

Dilëwyd y polisi hwn o'r cynllun gan ei fod wedi ei gynnwys yn ddigonol yn y polisi cenedlaethol, ers cyflwyno Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol yn 2016.

Drafft